CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION IONAWR 9, 2018

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Ionawr 9, 2018 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), John Hughes, Llinos Williams, Gethin Williams, Simon Evans, Elfed ap Gomer, Carwyn Evans, Paul Williams. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Peredur Jenkins, Gareth Ellis.

2. Datgan diddordeb:

Roedd Elfed ap Gomer yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 4. Eitem 5.b.
Roedd Gethin Williams yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 5.b.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Rhagfyr 12, 2017

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Rhagfyr 12, 2017

Eitem 4. Eitem 8.ch. Derbyniwyd llythyr (8/1/2018) oddi wrth Mr Edward Harries yn rhoi gwybod ei fod am wneud y ddau hysbysfwrdd am £75.00.

Penderfynwyd iddo wneud yr hysbysfyrddau.

Eitem 5.b. Sydd angen gwneud ein gwefan yn fwy diogel? Mae Google yn awgrymu i ni gael tystsgrif SSL (Secure Sockets Layer) a bydd hyn yn costio £30.00 (= ½ pris y flwydd gyntaf)

Penderfynwyd doedd dim angen SSL oherwydd maint a gwaith y Cyngor.

Derbynneb oddi wrth Elfed ap Gomer am siec at y swm £169.00.

Eitem 8.d. Penderfynwyd anfon llythyr paratowyd gan Elfed ap Gomer ynglŷn y gwasanaeth biniau halen rydym yn ei gael, gwasanaeth sydd ddim yn dderbyniol, i Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd, Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd a Cyng. Peredur Jenkins.

Eitem 8.dd. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen sgubo ffordd Taicynhaeaf.

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (6/12/2017) oddi wrth Cyllid, Cyngor Gwynedd. Maent angen gwybod ein praesept am 2018 / 2019. Maent angen y wybodaeth erbyn dydd Gwener, Ionawr 26, 2018.

Praesept 2016 / 2017 - £6,500.00. Praesept 2017 /2018 - £7,500.00.

Rhoddwyd manylion o'r amcan gyfrif costau y Cyngor am 2017 / 2018 a manylion at praesept 2018 / 2019 i'r aelodau.

Penderfynwyd derbyn amcan gyfrif costiau y Cyngor ac i'r praesept fod yn £7,500.00 fel y llynedd..

b. Bil (2/1/2018) am £552.00 oddi wrth Mr J.Ll. Williams am glirio llwybrau yn ardal Bontddu 2017.

Penderfynwyd talu'r bil.

c. Bil (4/1/2018) am £225.00 oddi wrth Janet Edwards at ofalu am Toiledau Bontddu yn Hydref, Tachwedd a Rhagfyr.

Penderfynwyd talu'r bil.

ch. Balans yn y banc ar 29 Rhagfyr, 2017: £9.269.94.

6. Mynwent Llanelltyd

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/65/350. Gosod ffenestri to. Bryn Golau, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi'r cais. (30/12/2017).

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (13/12/2017) oddi wrth Un Llais Cymru. Cyfle i'r Cadeirydd a'i gwestai cael gwadd i arddwest Ei Mawrhydi ym Mhalas Buckingham ar 15 Mai, neu 31 Mai, neu 5 Mehefin 2018.

b. Llythyr (13/12/2017) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod:

1. maent am glirio coed a llystyfiant wrth droad Bwyty Mawddach ar y ffordd A496.
2. maent am ail bwyntio'r wal sydd wrth Hawddamor, Taicynhaeaf.

c. Llythyr (19/12/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyrsiau

hyfforddi. Nid oes cyrsiau yn yr ardal ar hyn o bryd.

ch. Llythyr (21/12/2017) oddi wrth Theatr Bara Caws. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

d. Llythyr (21/12/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd. Amgáu mae copi Rhybudd i gau ffordd gyferbyn â Pentre Farm am gyfnod o 21/12/2017 am dri diwrnod er mwyn atgyweirio gwasanaeth BT.

dd. Llythyr (22/12/2017) oddi wrth Cadeirydd Un Llais Cymru yn rhoi digwyddiadau y sefydliad yn ystod 2017, fel Cynllun Gwobrau Cenedlaethol a Chynhadledd Genedlaethol, a datblygiad Panel Adolygu Cynghorau Cymuned a Thref, a chyrsiau i Gynghorwyr. Amgáu mae cynllunydd wal 2018.

e. Llythyr (4/1/2018) oddi wrth Clybiau Ffermwyr Ifanc, Swyddfa'r Ffermwyr Ifanc. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

Nid oedd adroddiad.

10. Materion Brys

Nid oedd materion brys.